Thomas Levi, 1825–1916
Gweinidog (MC), awdur, emynydd, golygydd a dirwestwr

Rwyf finnau'n filwr bychan,
Yn dysgu trin y cledd,
I ymladd dros fy Arglwydd
Yn ffyddlon hyd fy medd.
Pererin bychan ydwyf,
Yn cychwyn ar ei daith, –
O! arwain, Arglwydd grasol,
Hyd dragwyddoldeb maith.

Thomas Levi

Yr oedd Thomas Levi yn ŵr o gefndir tlawd a lafuriodd yn ddygn trwy gydol ei oes i'w ddiwyllio'i hun ac i rannu'r wybodaeth a gafodd a'r newyddion da a'i meddiannodd gydag eraill. Hanai o Ben-rhos nid nepell o Ystradgynlais, ac fe'i ganed 12 Hydref 1825 mewn bwthyn dinod i deulu o dras Iddewig. Enillai ei dad John Levi ei fara menyn trwy weithio mewn gweithfeydd haearn a glo, ond wedi iddo gael tröedigaeth ymfudodd i'r Unol Daleithiau. Yr oedd ei fam Prudence yn wraig dduwiol ac fe gafodd ddylanwad mawr ar y plant.

Derbyniodd beth addysg foreol yn "Ysgol y Northman" yn y pentref ond aneffeithiol oedd hwnnw gan y treuliai'r athro y rhan fwyaf o'i amser yn y Mason Arms yn llymeitian. Cyrchai Thomas Levi hefyd i ysgol nos lle y byddai'n darllen er mwyn ehangu ei feddwl. Bu'n gweithio am gyfnod yng ngwaith dur Ynysgedwyn fel prentis o foldiwr. Byddai'n mynd yn gyson hefo'i fam i'r seiat yng nghapel Cwmgïedd ac yn y fan honno darllenai'r Beibl, y llyfr emynau a *Channwyll y Cymry*. Mynychai hefyd gyfarfodydd pregethu a chymdeithasfeydd a gynhelid yn y cyffiniau. Ym 1857 fe'i hordeiniwyd i'r weinidogaeth yn sasiwn Bont-faen. Bugeiliodd eglwysi Capel yr Ynys, Ystradgynlais (oddeutu 1855–60), Philadelphia, Treforys (1860–75) a'r Tabernacl, Aberystwyth

(1876–1901) lle'r oedd 650 o aelodau. Yr oedd yn ddiflino fel awdur a llwyddodd i gyhoeddi 30 o lyfrau gwreiddiol gan gynnwys *Hanes Prydain Fawr*, 1862 a *Bywyd a Theithiau Livingstone* (1857) Cyfieithodd hefyd 60 o lyfrau o'r Saesneg i'r Gymraeg, yn cynnwys *Yr Anianydd Cristionogol*, 1859 a *Crist a Gwroniaid y Byd Paganaidd* (1887).

Yr oedd yn llwyrymataliwr ac yn bleidiwr brwd dros ddirwest – a chefnogai amcanion Urdd y Temlwyr Da ac Urdd y Ruban Glas. Ymddiddorai yn y diwygiad cerddorol ac fe gynorthwyodd Joseph Parry gyda geiriau 'Cantata'r Adar' a 'Chantata Joseph'. Cyfansoddodd nifer o emynau poblogaidd a bu ar bwyllgor llyfr emynau y Methodistiaid Calfinaidd. Ond er rhychwant eang ei ddiddordebau, ei gyfraniad pennaf oedd fel arloeswr cylchgronau i bobl ifanc. Gwelodd yr angen am gyfrwng effeithiol a fyddai'n addysgu plant ac ieuenctid. Ymddangosodd *Yr Oenig* ym 1854 o dan ei olygyddiaeth ond daeth i ben ar ôl dwy flynedd. Ymgeisiodd eto gyda *Telyn y Plant* ym 1859 ond darfu hwnnw ym 1861. Yn yr un flwyddyn ymddangosodd *Trysorfa y Plant* am y tro cyntaf, yn wahanol i'r ddwy ymdrech gyntaf noddwyd hwn gan Gyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd a defnyddiwyd yr eglwysi fel rhwydwaith i'w ddosbarthu.

Trwy gynnwys erthyglau bywiog, lluniau, a gwobrau i enillwyr cystadleuthau, ynghyd â rhoi cil-dwrn i ddosbarthwyr, creodd gylchgrawn deniadol a darllenadwy. Bu'n llwyddiant ysgubol a chyrhaeddodd ei gylchrediad 40,000 y mis ym 1881. Bu'n olygydd *Trysorfa y Plant* hyd 1911. Priododd ddwywaith, y tro cyntaf ag Elizabeth Daniel, Cwmgïedd, a fu farw ym 1871, ac yna ym 1873 â Margaret, merch ieuengaf Hugh a Catherine Jones, Coedmadoc, Tal-y-sarn, sir Gaernarfon. Bu farw 16 Mehefin 1916 yn 90 mlwydd oed.